



# Maniffesto 2026

ahpf cymru·wales

Mae Ffederasiwn Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymru (AHPF Cymru) yn cynrychioli casgliad o 13 o broffesiynau gwahanol sy'n ymroddedig i gefnogi unigolion ar hyd eu hoes. Mae ein haelodau'n gweithredu mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys y GIG, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, practis preifat, addysg, a'r system farnwrol. Mae'r ffederasiwn yn cynnwys y cyrff canlynol:

**Cymdeithas Orthopteg Prydain ac Iwerddon**
**Cymdeithas Therapyddion Drama Prydain**
**Cymdeithas Therapi Cerdd Prydain**
**Cymdeithas Prosthetyddion ac Orthotwyr Prydain**
**Cymdeithas Ddeieteg Prydain**
**Cymdeithas Seicolegol Prydain**
**Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi**
**Coleg y Parafeddygon**
**Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol**
**Coleg Brenhinol Podiatreg**
**Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith**
**Cymdeithas y Radiograffwyr**
**Cymdeithas Therapyddion Celf Prydain**

Cyn etholiadau'r Senedd yn 2026, mae AHPF Cymru wedi nodi pum maes ffocws allweddol y credwn y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ledled Cymru yn y dyfodol.







## 1. Strategaeth Gweithlu Genedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

AHPs yw'r **trydydd** gweithlu clinigol mwyaf yn GIG Cymru. Fodd bynnag, mae AHPF Cymru yn bryderus iawn, fel un o'r grwpiau proffesiynol llai, fod cyfraniadau hanfodol AHPs i iechyd a lles y boblogaeth yn cael eu hanwybyddu'n rhy aml. Mae AHPs yn cyfrif am **25%** o weithlu'r GIG yng Nghymru ac wrth i'r galw am wasanaethau gofal iechyd barhau i dyfu, nid yw'r angen am AHPs mewn meysydd allweddol—fel adsefydlu, cymorth iechyd meddwl, a gofal ataliol—erioed wedi bod yn fwy o allweddol. Heb strategaeth gweithlu genedlaethol gydgysylltiedig, mae'r proffesiynau hyn mewn perygl o ddod yn anghynaliadwy, gan arwain at lefelau staffio anniogel a'r potensial am niwed i gleifion. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn ymrwymo i ddatblygu a gweithredu strategaeth gweithlu gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Dim ond gyda mwy o fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a'r gweithlu ehangach y bydd gwneud GIG Cymru yn fwy effeithlon, fel y nodwyd yng nghyngor gwyddonol Llywodraeth Cymru ar y GIG ymhen 10+ mlynedd.[1] Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae polisi'r GIG yn symud tuag at ganllawiau staffio diogel ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd—rhaid i bolisi Cymru ddilyn yr un peth. Heb fframwaith o'r fath, mae bylchau staffio yn aml yn digwydd heb i neb sylwi, gan gyfrannu at fwy o flinder a chyfaddawdu ansawdd gofal. Bydd safonau staffio clir y gellir eu gorfodi yn sicrhau gweithlu mwy gwydn, gwell gofal i gleifion, a chymdeithas iachach.

Mae AHPF Cymru hefyd yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ymestyn y gallu i bob AHP yng Nghymru hyfforddi ac ymarfer fel rhagnodwyr annibynnol.

[1] Llywodraeth Cymru (2023). Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy. Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru. www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-09/science-evidence-advice.pdf



Mae AHPF Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno **strategaeth gweithlu genedlaethol** gynhwysfawr a **chanllawiau staffio diogel** i Gymru.



Manifesto 2026 ahpf cymru·wales

## 2. Gweithlu Iach a Heini

Mae iechyd a lles y gweithlu yn hollbwysig er mwyn cynnal safonau uchel o ofal. Rhaid i sefydliadau flaenoriaethu iechyd corfforol a meddyliol eu staff, gan sicrhau mynediad amserol at wasanaethau AHP pan fo angen i gadw staff mewn gwaith neu i'w cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith. Trwy feithrin amgylchedd cefnogol a hyrwyddo lles, gall cyflogwyr atal gorflino, hybu cynhyrchiant, a gwella boddhad swydd.

Ymhellach, mae sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn hanfodol ar gyfer cadw ac ymgysylltu â staff. Rhaid i gyflogwyr gynnig opsiynau hyblyg ar gyfer seibiannau, ymarfer corff a gweithgareddau lles i gefnogi staff i gynnal iechyd da. Yn ogystal, mae'n hanfodol bod gweithleoedd yn darparu adnoddau a chymorth digonol i fenywod sy'n profi'r menopos, gyda gwybodaeth glir am y gwasanaethau sydd ar gael i helpu i liniaru ei effaith ar eu bywydau gwaith.



Mae AHPF Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau **mynediad amserol at wasanaethau AHP** i'r rhai sy'n gweithio ym maes **iechyd a gofal cymdeithasol**.

## 3. Ehangu Mynediad i'r Proffesiwn

Mae AHPF Cymru yn credu'n gryf bod ehangu mynediad i'r proffesiynau AHP trwy brentisiaethau gradd yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â phrinder gweithlu a gwella amrywiaeth y sector. Mae prentisiaethau yn cynnig dewis amgen hygyrch i addysg brifysgol draddodiadol, gan ganiatáu i unigolion gael profiad ymarferol wrth ennill bywoliaeth. Mae'r llwybr hwn yn arbennig o bwysig i'r rhai a all wynebu rhwystrau ariannol neu logistaidd i addysg uwch.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau pendant i gyflwyno ac ehangu cynlluniau prentisiaeth gradd o fewn meysydd AHP. Bydd y fenter hon nid yn unig yn creu llwybrau mwy cynhwysol i mewn i broffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol ond bydd hefyd yn cefnogi cymunedau lleol drwy feithrin gweithlu medrus sy'n gweddu i anghenion unigryw poblogaeth Cymru. Drwy gynyddu cyfleoedd hyfforddi yn y modd hwn, gall Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth gofal iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a darparu cyfleoedd gyrfa sy'n newid bywydau i fwy o unigolion.



Mae AHPF Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i **ehangu mynediad** i'r proffesiynau AHP drwy archwilio llwybrau, mewn ymgynghoriad â'r proffesiynau, megis **prentisiaethau gradd**.

Am gwestiynau ynghylch cynnwys y papur briffio hwn, cysylltwch â Caroline Walters **caroline.walters@rcslt.org**

## 4. Buddsoddi mewn Isadeiledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol

Mae AHPF Cymru yn cefnogi'n llwyr y symudiad tuag at ofal yn y gymuned, gan gydnabod y gall arwain at well canlyniadau iechyd a lleihau'r pwysau ar system ysbyty sydd wedi'i gorestyn. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu buddsoddiad mewn cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Byddai'r canolfannau hyn yn galluogi ystod ehangach o wasanaethau—fel diagnosteg, triniaeth ac adsefydlu—i gael eu darparu yn nes at gartrefi cleifion, gan wella mynediad a hwylustod.

Byddai cyfleusterau o'r fath nid yn unig yn lleihau amseroedd teithio ac yn gwella boddhad cleifion ond hefyd yn meithrin cydweithredu ymhlith darparwyr, gan wella integreiddio gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol. Mae buddsoddi yn y canolfannau lleol hyn yn hanfodol i leihau anghydraddoldebau iechyd, ateb y galw cynyddol, a sicrhau mynediad teg i ofal o ansawdd uchel i bob dinesydd.



Mae AHPF Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod **gwasanaethau o fewn y gymuned** yn **cael eu darparu o fewn adeiladau addas.**

## 5. Mynediad Cyffredinol i Wasanaethau AHP mewn Llwybrau Triniaeth

Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o atal, trin ac adsefydlu cleifion, ond mae mynediad at y gwasanaethau hyn yn aml yn anghyson, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd difreintiedig. Dylai fod gan bob dinesydd yng Nghymru yr hawl i fynediad teg at wasanaethau AHP fel rhan o'u taith triniaeth. Boed hynny drwy adsefydlu, rheoli cyflyrau hirdymor, neu gefnogi adferiad, mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn darparu ymyriadau hanfodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwella canlyniadau cleifion ac ansawdd bywyd.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â'r gwahaniaethau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol o ran mynediad at wasanaethau AHP. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad ar y cyd mewn ehangu'r gweithlu a modelau gofal yn y gymuned, gan sicrhau nad oes neb, waeth beth fo'u lleoliad neu amgylchiadau, yn cael ei eithrio o'r buddion y gall gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd eu darparu. Trwy flaenoriaethu hyn, gall y llywodraeth leihau anghydraddoldebau iechyd, gwella ansawdd gofal, a gwella iechyd cyffredinol y boblogaeth.



Mae AHPF Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ganiatáu'r **hawl i gleifion gael mynediad at wasanaethau AHP** fel rhan o'u llwybr triniaeth.

Am gwestiynau ynghylch cynnwys y papur briffio hwn, cysylltwch â Caroline Walters **caroline.walters@rcslt.org**